# Y Dinesydd

Mai 2012 Rhif 367 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog

# Dyddiau appus i ymwelwyr â choetir!

Erbyn hyn, mae byd o hwyl yr awyr agored ar flaenau bysedd ymwelwyr â'r coetir ar ôl i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gynhyrchu ap ffôn symudol sy'n rhoi gwybodaeth am gannoedd o filltiroedd o lwybrau coedwig.

Mae ap ffonau clyfar Cymru ForestXplorer Wales yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gynnig gwybodaeth hollol gyfoes am fwy na 200 o lwybrau hamdden yng nghoetiroedd Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

Drwy lawrlwytho'r ap, sy'n hollol ddwyieithog, yn rhad ac am ddim i iPhonau ac iPadiau Apple a dyfeisiadau Android Google bydd pawb yn gallu mwynhau i'r eithaf wrth ymweld â'r coetiroedd.

Mae'r ap yn cynnwys mapiau llwybrau, lluniau o'r awyr a chyfeiriadau ar gyfer milltiroedd o deithiau cerdded, llwybrau beicio mynydd a llwybrau merlota, gyda dim llai na 92 o fannau cychwyn ar gyfer diwrnod gwych allan yn y goedwig.



*App newydd y goedwig yn dod â byd o hwyl awyr agored at flaenau bysedd pobl.*

Yn ôl Steven Richards-Price, Rheolwr Profiadau Ymwelwyr Comisiwn Coedwigaeth Cymru, sydd wedi dyfeisio'r ap, mae'n gobeithio y bydd yn annog hyd yn oed fwy o bobl i ddarganfod manteision hamddena yn yr awyr agored.

"Roeddwn i eisiau datblygu ap i ddangos yr holl bethau y gallwch chi ei wneud a'r lleoedd y gallwch chi fynd iddyn nhw yng nghoedwigoedd Cymru" meddai.

"Mae yna ddigonedd o ddewisiadau chwilio i helpu ymwelwyr ganfod yr wybodaeth y maen nhw'n chwilio amdani, megis y lle agosaf, neu gallan nhw hidlo eu chwilio yn ôl eu dewis o weithgaredd.

"Mae coetiroedd Cymru'n denu mwy na miliwn o ymweliadau bob blwyddyn ac rwy'n gobeithio y bydd yr ap newydd yn denu hyd yn oed yn fwy o bobl i ymarfer ychydig yn ein coetiroedd gwych, neu i ddim ond mwynhau'r awyr iach.

Yn ogystal â bod yn declyn hynod ddefnyddiol i helpu ymwelwyr i gael y gorau allan o lwybrau'r goedwig, gall yr ap hefyd roi gwybodaeth gyfoes am rybuddion neu fod rhywle ar gau dros dro.

Mae'n cynnwys dolenni i wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru lle gall ymwelwyr gael rhagor o fanylion am adnoddau hamdden, yn ogystal â gwybodaeth gyfareddol am goetiroedd Cymru.

Cafodd yr app ei ddatblygu gyda chymorth getunik.com ac Audiotours a fu wrthi am chwe mis yn ei orffen. Mae ar gael ar Google Play ar gyfer dyfeisiadau Android ac ar Appstore ar gyfer dyfeisiadau Apple. Gellir gweld beth sydd ganddo i'w gynnig ar http://vimeo.com/39626002.

# Gŵyl Lenyddiaeth newydd i blant yng Nghaerdydd

## 20 - 24 Mawrth 2013

Bydd Caerdydd, cartref Roald Dahl a Doctor Who, yn gartref i'w Gŵyl Lenyddiaeth gyntaf i Blant yn 2013. Fe'i cynhelir rhwng dydd Mercher 20 – Sul 24 Mawrth 2013. Bydd yn dwyn ynghyd rhai o awduron a darlunwyr gorau byd llyfrau plant, gan roi de Cymru ar fap llenyddiaeth plant unwaith eto.



Yr awdures doreithiog **Jacqueline Wilson** yw'r cyntaf i gadarnhau ei rhan yn rhaglen yr Ŵyl. "Rwyf wrth fy modd yn derbyn gwahoddiad i fod yn rhan o'r Ŵyl gyntaf yng Nghaerdydd sydd wedi ei hanelu yn benodol at ddarllenwyr iau," meddai'r cyn Awdur Llawryfog i Blant. "Mae llyfrau yn rhoi rhwydd hynt i blant fod yn anturiaethwyr bach, er mwyn darganfod eu hunain a'r byd ehangach, ac mae'n hynod o bwysig annog a dathlu hyn."

Bydd yr Ŵyl yn galluogi pobl ifanc i gwrdd, ac i weithio ochr yn ochr â rhai o'r meddyliau mwyaf creadigol ym myd llyfrau plant. Bydd yn hyrwyddo llythrennedd a'r celfyddydau gyda rhaglen ddyfeisgar a hygyrch o ddigwyddiadau diwylliannol mewn mannau allweddol ym mhob rhan o Gaerdydd, yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg.

*(Parhad ar dudalen 3)*

# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Richard Lewis**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Dafydd Saer**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mehefin erbyn 27 Mai i:
1 Heol Chapell, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2DA
Ffôn: 02921 154535
dafsaer@yahoo.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


# *Y Gymraeg yng Nghaerdydd: rhannwch eich profiadau*

- Ydych chi'n meddwl bod diwylliant cyfrwng Cymraeg Caerdydd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf?
- Ydych chi wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas? Oeddech chi ymysg y disgyblion cyntaf?
- Sut mae Caerdydd yn cymharu â rhannau arall o Gymru?
- A gymroch chi ran mewn rhai o ymgyrchoedd iaith y 50au a'r 60au?

Rydym yn edrych am straeon, atgofion a barn am fywyd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd, heddiw ac yn y gorffennol.

Mae **Stori Caerdydd** yn amgueddfa newydd sbon sy'n dilyn hanes y ddinas o'r dref farchnad fechan yn 1300 i'r brifddinas fywiog heddiw. Caiff yr hanes ei adrodd yno gan y rhai a'i creodd - trigolion y ddinas. Mae'r amgueddfa wedi'i lleoli yn adeilad prydferth a hanesyddol yr Hen Lyfrgell yng nghanol y ddinas. Mae nifer o wrthrychau'r amgueddfa, gan gynnwys hen jiwcbocs Clwb Ifor Bach wedi cael eu rhoi gan aelodau'r cyhoedd neu fusnesau lleol.

Mae mynediad am ddim i'r amgueddfa sydd ar agor rhwng 10am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 11am a 4pm ar ddydd Sul.

Os hoffech ein helpu i adrodd stori perthynas Caerdydd â'r iaith Gymraeg, cysylltwch â Rachel Carney ar 029 2078 8334 neu rcarney@caerdydd.gov.uk

Am ragor o wybodaeth am yr amgueddfa, ewch i'r wefan www.storicaerdydd.com

Trefnwyd yr arddangosfa gan Stori Caerdydd / The Cardiff Story.

# CÔR MERCHED Y GARTH

Wedi'n agos i 35 mlynedd o ganu, cystadlu a chymdeithasu mae Côr Merched y Garth yn dod i ben. Bu'n gyfnod eithriadol o lewyrchus a chyfrannodd y Côr yn fawr at fywyd diwylliannol y de-ddwyrain a Chymru gyfan o dan bump o arweinwyr dawnus, sef Meinir Heulyn, Alwena Roberts, Menna Thomas, Llinos Swain a Gavin Ashcroft. Enillwyd gwobrau uchaf yr Ŵyl Gerdd Dant, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl Ban-Geltaidd, perfformiwyd ledled Cymru, gan gynnwys yn y gwasanaeth i agor y Cynulliad Cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a chafwyd teithiau i wahanol rannau o Loegr ac i Ffrainc, Iwerddon a Phatagonia bell.

Mae'r pwyllgor yn trefnu dau ddigwyddiad i ddathlu llwyddiannau'r Côr. Y cyntaf fydd noson anffurfiol yng nghwmni Merched y Garth, disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg ac Aelwyd Porthcawl, i'w chynnal yng Nghanolfan Gartholwg ar Fai 24ain am 7 o'r gloch. Bydd croeso i bawb i'r noson hon.

Yr ail ddigwyddiad fydd swper ffarwelio yng ngwesty'r Heritage Park, y Rhondda **Nos Wener Gorffennaf 6ed**. Mae'r côr yn gobeithio y bydd criw mawr o gyn-aelodau'n medru ymuno â'r aelodau presennol yn y noson hon. Dros y blynyddoedd bu cryn fynd a dod, ac mae rhai o'n cyn-aelodau i'w cael ym mhob cwr o Gymru bellach, ac nid hawdd yw cysylltu â nhw i gyd! Ond os ydych yn gyn-aelod ac yn darllen hwn, byddem wrth ein bodd pe gallech ddod. Cost y bwffe fydd £10 a bydd y côr yn cyfrannu gweddill y gost.

Os hoffech ddod i'r swper ffarwelio, gofynnir ichi anfon eich enwau, ynghyd â'r tâl, erbyn 1 Mehefin. Anfonwch y siec am £10 os gwelwch yn dda at Avril Pickard, 15 Ffordd y Gollen, Tonteg, Pontypridd, CF38 1TA (07906889169), neu at Efiona Hewitt, 35 Pen-y-waun, Efail Isaf, Pontypridd, CF38 1AY (07792798093).

Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Eleri Roberts drwy e-bost at eleriproberts@hotmail.com

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Gŵyl Lenyddiaeth newydd i blant yng Nghaerdydd

*(Parhad o'r dudalen flaen)*

Trefnir Gŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd gan Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

"Byddwn yn trawsnewid Caerdydd yn fyd hud o chwedlau a chymeriadau byw," meddai Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru, **Lleucu Siencyn** "Pa well ffordd o gychwyn blwyddyn o weithgarwch i blant â phobl ifainc dan adain Llenyddiaeth Cymru na deffro'u dychymyg gyda gŵyl fawreddog yn y brifddinas."

"Bydd Gŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd yn ddigwyddiad newydd allweddol ar gyfer y ddinas, gan ychwanegu at raglen o ddigwyddiadau sydd eisoes yn un brysur," ychwanegodd y Cynghorydd **Nigel Howells**, Aelod Gweithredol Chwaraeon, Diwylliant a Hamdden. "Bydd y Cyngor yn helpu i greu'r Ŵyl, yn rhaglennu ac yn darparu lleoliadau fel Castell Caerdydd. Bydd yn ffordd hwylus o annog plant i ddarllen ac, yn fwy pwysig, i fwynhau darllen"

Mae prosiectau fel Strategaeth Llythrennedd Cyngor Caerdydd a Chynllun Awdur Llawryfog Pobl Ifanc Llenyddiaeth Cymru yn cydnabod bod angen maethu sgiliau darllen ac ysgrifennu creadigol: bydd Gŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd yn gyfle i bobl ifanc fynd i'r afael ag ystod ehangach o lyfrau a syniadau nac erioed o'r blaen.

Meddai'r Gweinidog Addysg **Leighton Andrews** AC "Bydd Gŵyl Llenyddiaeth Plant yng Nghaerdydd o fudd mawr i'r ddinas. Fel Gweinidog, un o'm blaenoriaethau yw codi safonau llythrennedd. Rhaid cefnogi unrhyw beth sydd yn ysbrydoli plant a phobl ifainc y ddinas i ddatblygu cariad tuag at ddarllen ac ysgrifennu. Rwy'n dymuno pob hwyl i'r Ŵyl."

Caiff gwybodaeth ychwanegol ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau'r gwanwyn nesaf. Os hoffech chi fod ymhlith y cyntaf i dderbyn y wybodaeth dylech gofrestru drwy anfon neges e-bost at gwylllenplantcaerdydd@llenyddiaethcymru.org


**EICH PRIODAS**

**FFILMIAU a FFOTOGRAFFIAETH**

Ffilmio a Golygu i DVD
Ffotograffiaeth Priodas

Gwasanaeth Cymraeg gan ŵr camera teledu proffesiynol a phrofiadol.
Cofnodwch eich diwrnod ar fideo neu ar ffotograff.

Ymholiadau/Manylion pellach:

**07747 750838**

www.fideobiz.com


# Addysg Gynradd Gymraeg: Hwb i'r rhifau o gyfeiriad rhieni'n ceisio lle yn hwyr

Fel yr oeddwn yn gobeithio yn erthygl fis Ebrill mae ceisiadau hwyr am le yn yr ysgolion cynradd Cymraeg wedi codi nifer y rhai fydd yn dechrau fis Medi nesaf o 661 i tua 690, twf tua 5% neu ffrwd gyfan.

Erbyn hyn does yr un lle gwag yn y dosbarthiadau derbyn yn 13 ysgol, yn gadael 4 ysgol fydd yn gallu cynnig lle i'r rhai sy'n hwyr iawn yn gwneud cais sef ysgolion y Creigiau (2 lle), Glan Ceubal (23 lle), Y Wern (13 lle) a Phenygroes (15 lle). Wrth gwrs mae Ysgol y Wern mewn gwirionedd yn derbyn 17 disgybl yn fwy na'r llynedd am fod rhaid i'r sir agor ffrwd ychwanegol yno tipyn ynghynt nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'r sir felly wedi cynyddu cynhwysedd dosbarthiadau derbyn y sector Cymraeg o 711 i 741 wrth agor y ffrwd newydd yn Y Wern a bydd yn ychwanegu ffrwd arall y flwyddyn nesaf wrth gau ysgol bresennol Treganna a'i atodiad Tan-yr-eos ac agor y Treganna newydd gyda 3 ffrwd. Mae'r cytundeb ar gyfer y Treganna newydd wedi'i roi i'r contractwyr fydd yn torri'r dywarchen gyntaf yn fuan.

Am fod pob lle yn y 5 ffrwd bresennol sydd ar gyfer ardaloedd Treganna/Pontcanna/Trefynach wedi'i lenwi a thwf o 10% i'w ddisgwyl yn yr ardaloedd hyn y mae'n bur debyg y bydd galw am 165 lle erbyn Medi 2013 fydd yn gorfodi'r sir i gadw trydedd ffrwd Pwll Coch ar agor hyd nes yr agorir ysgol arfaethedig Trefynach ar safle sydd o hyd yn hollol anhysbys.

Mae'r sir yn bwriadu symud Ysgol Melin Gruffydd i'w chartref newydd ar hen safle Ysgol Saesneg Eglwys Newydd er na fydd yr estyniad ar draul o £4M+ yn debyg o fod yn hanner barod erbyn dechrau'r tymor ond bydd lle i'r plant, ebe'r sir.

Mae RhAG wedi mynegi teimlad y rhieni bod angen ychwanegiadau at y lleoedd sy ar gael a hynny'n sylweddol ym mhob rhan o'r ddinas ac eithrio ardaloedd Treganna a dalgylchoedd Y Wern a Phenygroes. Mae'r sir yn derbyn tebygrwydd y parhad yn y galw ond yn tynnu sylw at y ffaith bod y galw am addysg Saesneg hefyd ar gynnydd ers 2/3 blynedd ac nad oes llawer o ysgolion Saesneg a lleoedd gwag fel oedd yn y gorffennol. Bydd penderfyniadau anodd i'w cymryd yn y dyfodol ac ar hyn o bryd nid yw'r swyddogion yn fwy na neb arall yn gwybod pwy fydd mewn grym wedi etholiadau mis Mai.

Un na fydd mewn grym wedi'r etholiad yw Freda Salway sy'n ymddeol o'r Cyngor. Mae hi'n deilwng o gydnabyddiaeth fel un sydd wedi bod yn deg iawn yn ei hymwneud ag addysg Gymraeg yn ei swydd fel aelod Cabinet y sir â chyfrifoldeb dros addysg.

**Michael L. N. Jones**
*Cydlynydd RhAG yn y De-ddwyrain*

# GWILYM HUMPHREYS

## Pennaeth cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen (1962 – 1975)



Bu farw Gwilym Humphreys ar 26 Mawrth yn 80 mlwydd oed ar ôl cystudd blin. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus o ddiolchgarwch am ei fywyd yng nghapel Berea Newydd, Bangor, ddydd Sadwrn 31 Mawrth. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu, Carys, Nia a Gareth.

Dyma grynodeb o rai rhannau o'r deyrnged a draddodwyd gan Alwyn Evans, brodor o Gaerdydd, a fu'n Swyddog Addysg gyda Gwilym Humphreys yng Ngwynedd.

---

Sut fyddech chi'n crynhoi mewn ychydig funudau fywyd sy wedi bod mor gyfoethog, wedi dylanwadu ar gymaint o bobl, wedi trawsnewid addysg cyfrwng Cymraeg De Cymru, a gweddnewid cymaint ar addysg ar draws ein cenedl? Allwch chi ddim. Dim ond crynhoi ambell bwt o'r doreth o atgofion allwn ei wneud, i amlygu rhai agweddau o'r dyn hynod ac unigryw hwn.

* * * * * * * *

I'r mwyafrif ohonom, fel addysgwr y cofir Gwilym Humphreys, fel dyn ag arddeliad dros ddysgu ac addysgu, a oedd bob amser am roi'r cyfle gorau i blant a phobl ifanc. Er iddo weithio am gyfnod yn Sefydliad Ynni Atomig Harwell gyda'i gyfaill oes Glyn O. Phillips … o'r cychwyn cyntaf roedd bryd Gwilym ar fod yn athro. Wedi cyfnod byr yn Llundain ymgymerodd â swydd pennaeth adran yn Llangefni. Yna, ar ôl cyfnod byr yng Ngholeg Caerllion, daeth cyfnod Rhydfelen – y cyfnod mae Cymru gyfan yn cysylltu fynychaf â bywyd Gwilym.

Buan y profodd y prifathro ifanc 30 oed, ei fod yn ŵr â gweledigaeth wrth iddo sefydlu Ysgol Rhydfelen gan arloesi gyda chymaint o agweddau addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd fy chwaer yn ddisgybl cynnar iawn, a'm mam oedd ysgrifenyddes Gwilym – ac o'r cychwyn cyntaf roedd hithau yn meddwl y byd ohono ac yn barod i wneud unrhyw beth i'w gynorthwyo.

Felly hefyd ei holl staff ymroddedig, oherwydd roedd yntau yn ymddiried ynddynt i fentro ac arloesi, yn eu canmol a'u cefnogi. Roedd yn hollol sicr – ac yn dweud hynny yn aml ar goedd – mai nhw oedd y gorau. Ond nid canmol gwag oedd hyn; roedd ei ddisgwyliadau'n uchel, a byddai'n herio staff a disgyblion bob amser i wneud yn well. I gymaint o rieni, a'u plant, Gwilym OEDD Rhydfelen. Roedd ganddo weledigaeth gynhwysol; ar gyfnod wrth i'r ysgolion gramadeg Saesneg eu hiaith edwino, arddelai weledigaeth o drefn newydd gyfun mewn ysgol Gymraeg a Chymreig a fyddai'n datblygu'r gorau i bob plentyn.

**Does dim dwywaith mai iddo ef mae'r clod pennaf am dwf anhygoel addysg Gymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru dros yr hanner canrif ddiwethaf – y cynnydd o'r 80 disgybl ym mlwyddyn gyntaf Rhydfelen, i'r deg o ysgolion uwchradd Cymraeg (a mwy ar y ffordd) sy' bellach yn gwasanaethu ardal wreiddiol Rhydfelen, o Gwm Nedd i Fynwy.**

Mae'r hanes wedi ei groniclo mor fanwl gan Huw Thomas ac eraill fel nad oes angen i mi sôn mwy amdano fan hyn. Er ei fod yn gwadu iddo erioed ei galw yn 'Eton Cymru' – papur newydd 'Y Cymro' a gafodd y bai am hynny – roedd ei ymlyniad i Ysgol Rhydfelen yn llwyr hyd y diwedd, a thân ar ei groen oedd penderfyniad cynghorwyr cibddall Rhondda Cynon Taf i newid enw'r ysgol chwe blynedd yn ôl.

* * * * * * * *

Wedyn, yr arolygaeth – lle'r oedd yntau yn cymryd ei le priodol ymhlith cenhedlaeth o arolygwyr a gâi eu parchu hyd a lled Cymru. Roedd y ddisgyblaeth o gydweithio â'r rhain, pobl yn meddu ar ymennydd chwim ac ymrwymiad at y Gymraeg a Chymreictod – Gareth Lloyd Jones, Illtyd Lloyd, Neville Evans, Ronnie Williams, Jâms Nicholas a Ricey Thomas yn eu plith – yn sbardun iddo ac yn ddelfrydol ar gyfer ei feddwl dadansoddol, gwyddonol. Fe roddodd y gwmnïaeth ambell gyfle hefyd iddo hogi ei sgiliau snwcer a ddatblygwyd gyntaf yn y Stiwt yn Rhos! Ond ar adegau yn ystod y dyddiau hyn roedd yn ysu am 'wneud gwahaniaeth' i addysg plant, yn hytrach nag arsylwi arnynt, a dyna yn bennaf a'i sbardunodd i ddod yma i Wynedd yn Gyfarwyddwr Addysg.

* * * * * * *

Un elfen a fu'n gyson drwy ei oes – ei gariad at gerddoriaeth. Gyda'i lais bas, cyfoethog a soniarus, bu'n aelod o gorau a phartïon canu o'r dyddiau cynnar. Côr Meibion a Chôr Aelwyd y Rhos, Parti Meibion Cefni, ac yn aml gyda Carys yn ffurfio rhan o bedwarawdau llwyddiannus – gan gynnwys perfformiadau ar eu taith i'r Wladfa wedi ymddeoliad. I mi, profiad a gofiaf am byth oedd teithio gyda Carys ac yntau i Ynys Enlli, a gwrando arnynt, ynghyd â Rhiannon ac Alun Evans, yn canu pedwarawd ar y pryd yn y capel yno – dyna i chi leisiau, a'r croen gwyddau yn codi ar fy ngwar wrth wrando.

* * * * * * * *

Felly hefyd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ogystal â mynychu'r Eisteddfod ei hun am yr wythnos gyfan yn ddi-ffael, byddai'n brysur drwy'r flwyddyn fel aelod o amrywiol bwyllgorau'r Eisteddfod, ac yn y pen draw yn gadeirydd ac yn llywydd arni. Doedd dim rhyfedd i'r Eisteddfod ddegawd yn ôl ei greu'n Gymrawd – anrhydedd brin iawn – oherwydd ei gyfraniad enfawr, nid lleiaf yn y ddadl i warchod a chryfhau'r rheol Gymraeg.

* * * * * * * *

Roedd ei ffydd a'i gapeli yn bwysig iawn iddo drwy ei oes - o'r Capel Mawr yn Rhos lle cafodd, dan ddylanwad ei dad, y sail gref honno i'w Gymreictod a'i ddaliadau crefyddol, i'w gyfnod yng Nghapel y Crwys yng Nghaerdydd lle'r oedd yn flaenor ffyddlon a gwerthfawr, ac yna i Gapel y Graig, lle y darganfu gymuned grefyddol gynnes a didwyll, agos iawn at ei galon. Bu'n pregethu'n weddol gyson hefyd, ac yn cyfrannu'n sylweddol i bwyllgorau'r Henaduriaeth. Roedd Cristionogaeth ymarferol yn bwysig iawn iddo.

* * * * * * * *

Mae llawer o sôn am y parchedig ofn oedd gan athrawon tuag ato. Un tro yn ystod y tymor rygbi roedd nifer sylweddol o athrawon a phrifathrawon Gwynedd wedi dianc braidd yn gynnar o'u hysgolion ar brynhawn Gwener i ddal y cwch pedwar o'r gloch o Gaergybi i wylio'r gêm ryngwladol. Tua hanner ffordd drosodd i Ddulyn, daeth llais dros yr uchelseinydd: *"Will Mr Gwilym Humphreys please come to the Purser's office?"* Roedd hi'n anhrefn llwyr – athrawon yn baglu dros ei gilydd yn chwilio am le i guddio ac ambell un yn diflannu i'r toiledau am weddill y daith. Roedd Gwilym yn chwerthin yn braf pan glywodd y stori fore Llun – doedd o ddim ar y cwch, wrth gwrs.

* * * * * * * *

Y dyddiau hyn mae'r cyfryngau'n rhy barod i ddisgrifio rhywun fel 'cawr' … ond os bu cawr erioed yng Nghymru dros yr hanner canrif ddiwethaf, Gwilym Humphreys oedd hwnnw - cawr o ddyn diwylliedig, cawr o addysgwr, cawr o Gymro.

***Alwyn Evans***

# Colofn G.R.

"Gwn ei ddyfod, fis y mêl/Gyda'i firi, gyda'i flodau" oedd geiriau'r bardd Eifion Wyn wrth groesawu mis Mai. Mae'r gwanwyn yn y tir o ddifrif bellach a'r wlad yn harddu fesul dydd. Bu'r cyfnod o dywydd eithriadol o heulog a chynnes yn hwb i'r galon ar ôl tymor y gaeaf er na allwn gwyno gormod ar ein byd y tro hwn gan ein bod wedi profi gaeaf syndod o fwyn ar y cyfan. Tybed oes gobaith am haf eithriadol eleni?! – amser a ddengys!

Mae Bwrdd yr Iaith wedi dod i ben a'i brif weithredwr Meirion Prys Jones bellach wedi'i benodi yn Brif Weithredwr y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a Diwylliannol yn Ewrop. Ond wrth ffarwelio â Bwrdd yr Iaith rhaid croesawu'r drefn newydd fydd yn ceisio chwarae teg i'n hiaith drwy Meri Hughes y Comisiynydd Iaith cyntaf dan nawdd Llywodraeth Cymru. Dymunwn yn dda iddi yn y swydd allweddol hon.

Mae cyfaill i mi o Batagonia newydd ddychwelyd i Ddyffryn Camwy ar ôl treulio chwe wythnos yn ein plith yng Nghaerdydd. Bu draw y tro diwethaf yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf a chafwyd sylw diddorol dros ben ganddo y tro hwn sef, yn ei dyb o, fod y Gymraeg yn llawer mwy gweladwy y tro hwn yng Nghaerdydd. Dan ni'r trigolion yn cymryd yr holl arwyddion dwyieithog yn ganiataol fel y gwnaethon ni pan mai dim ond arwyddion Saesneg oedd yn britho'r wlad ac roedd rhaid aros i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith i ni ddeffro o'n trwmgwsg i sicrhau bod ein hiaith yn cael y parch dyladwy yn ein bywydau bob dydd.

## CYNIGION ARBENNIG YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Gyda thri mis a hanner i fynd cyn cychwyn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, cofiwch am ein cynigion tocynnau arbennig eleni ar gyfer unrhyw un sy'n dod draw i'r Brifwyl!

Gellir prynu tocynnau Maes am bris gostyngol (dros 10% ar bris tocyn oedolyn) tan 1 Gorffennaf drwy ffonio'r llinell docynnau ar 0845 4090 800 neu drwy fynd i'r wefan – www.eisteddfod.org.uk.

Os ydych yn bwriadu dod i'r Maes am fwy na deuddydd eleni, beth am fanteisio ar y cynnig arbennig canlynol? Prynwch docyn deuddydd i'r Maes a chewch fynediad am ddim i'r Maes ar ddiwrnod arall o'ch dewis. Felly, os prynwch ddau docyn oedolyn a dau docyn plentyn dan 12 i'r Maes ar gyfer unrhyw ddau ddiwrnod, gallwch archebu hyd at ddau docyn oedolyn a dau docyn plentyn dan 12 ar gyfer unrhyw ddiwrnod arall yn rhad ac am ddim, sy'n arbed £44.

Cofiwch hefyd am ein Tocyn Wythnos ar gyfer y rhai ohonoch sy'n gobeithio treulio'r wythnos gyfan yn crwydro Maes yr Eisteddfod. Gallwch arbed hyd at 34% (£46) ar bris tocyn oedolyn am yr wythnos drwy brynu tocyn wythnos - bargen arbennig i unrhyw un sy'n mwynhau ymweld â'r Maes yn ddyddiol.

Er enghraifft, byddai dau oedolyn a dau blentyn rhwng 12-18 yn arbed £140 (bron i 44%) ar bris tocynnau Maes ar gyfer yr wythnos gyfan drwy brynu tocyn wythnos i'r Eisteddfod.

Am fanylion am y cynigion hyn i gyd ewch i www.eisteddfod.org.uk neu ffoniwch y llinell docynnau ar 0845 4090 800.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg ar dir hen faes awyr Llandŵ ger y Bontfaen a Llanilltud Fawr rhwng 4 ac 11 Awst eleni. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth.

# COLLED CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS



Dechreuodd cyfarfod Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys ar Fawrth 5ed ar nodyn trist gyda'r Ysgrifennydd Iris Cobbe yn datgan bod wyneb cyfarwydd yn eisie o'r cwmni - o'r "ford dop" - un a fu'n rhan o wead y Gymdeithas ers dros ddeugain mlynedd. Roedd hi'n sôn am Rowland (Ron) Owen a fu farw ar 26ain Chwefror. Soniodd am ei ddewrder wrth iddo ymladd ei salwch, ei ddygnwch a'i benderfyniad i wfftio a goresgyn unrhyw broblem. Dywedodd ei fod, hyd at y diwedd, yn barod i helpu.

Roedd Rowland yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas a fe oedd y Cadeirydd pan ddathlwyd ei phen-blwydd yn ddeugain oed 'nôl yn 2005. Ei ddewis o elusen bryd hynny oedd Holme Towers, Penarth a dyna le cafodd ofal tyner yng nghwmni ei deulu ar y diwedd.

Chwaraeodd ran allweddol a chanolog yn y dasg o godi capel newydd ym Methel Penarth a oedd dan ei sang yn ei angladd ddydd Sadwrn 3ydd Mawrth - teulu a chyfeillion o bob rhan o'i fywyd yn dod at ei gilydd i dalu'r deyrnged ola'. Cafwyd cyfraniad gan Gôr Meibion Taf lle bu'n aelod ffyddlon ers y dechrau ac ymunodd Gill Lloyd, ffrind agos i'r teulu ac Ysgrifennydd Gohebol Capel Bethel â'r côr yn ei datganiad o'r emyn-dôn "Gwahoddiad".

Dywedodd Iris fod ei mam-gu yn arfer dweud taw'r byw a fu'n caru sy'n galaru - a dyna yw'r eironi - hiraeth a galar yw "legacy" cariad ac atgofion melys. Estynnwyd cydymdeimlad dwys a diffuant i Moyra ac i'r plant Alun a Rhian a'u teuluoedd - gan erfyn arnyn nhw i gofio bod teulu a ffrindiau wrth law i'w cynorthwyo drwy'r cyfnod yma.

# Ôl-Lwybrau

## Meri Griffiths

Ers ychydig fisoedd mae llwybr bywyd wedi fy arwain i fywyd dinesig yma ym mhrifddinas Cymru ac i fyw fwy neu lai yng ngolwg stadiwm arbennig. Magwraeth wledig ges i ar fferm yn Ystrad Meurig yn nhawelwch cefn gwlad Ceredigion ac addysg gynradd yn Swyddffynnon cyn mynd ymlaen i Ysgol Tregaron. Symud wedyn i olwg y môr yn Aberystwyth am addysg prifysgol. I olwg y môr eto am fy swydd gyntaf i Ysgol Uwchradd Eirias ym Mae Colwyn. Yn ôl wedyn i'r wlad i fwynder Maldwyn i briodi a magu teulu yn Llanfair Caereinion. Codi pac eto a threulio bron i chwarter canrif mewn tref farchnad yn Sir y Fflint. Yno roedden ni fel teulu yn dathlu'r mileniwm newydd.

Yng Nghymru roedd Stadiwm y Mileniwm eisoes wedi ei adeiladu i groesawu Cystadleuaeth Gwpan Rygbi'r Byd y flwyddyn cynt. Roedd Dafydd a minnau wrth ein boddau pan sicrhaodd cymydog i ni yn yr Wyddgrug docynnau i ni ar gyfer gêm Cymru v Awstralia 23ain Hydref, 1999. Dw i'n dal i gofio'r wefr o eistedd yno am y tro cyntaf a finnau mor falch bod gan Gymru adeilad newydd mor drawiadol.

Bore Sadwrn, Hydref 15, 2011 achlysur arbennig iawn yn y Stadiwm a phrofi'r cyffro a'r tensiwn fel un o'r miloedd oedd wedi dod i wylio'n fyw ar y sgrin fawr gêm rownd gynderfynol Cymru v Ffrainc yng Nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd. Y tro yma doedd dim angen teithio o'r gogledd-ddwyrain, dim ond dal bws rhif 60 o ben ein stryd ni o Landaf a disgyn wrth ymyl y stadiwm. Ymhen ychydig ddyddiau teithio ar y bws rhif 60 eto i wylio'r gêm am y trydydd safle a Chymru'n colli eto, y tro yma yn erbyn Awstralia. Meddwl yn ôl i 1999 pan oeddwn yn y stadiwm y tro cyntaf a Chymru'n colli'r tro hwnnw hefyd yn erbyn Awstralia!

## Rysáit Mis Mai

## FFOWLYN GYDA PHASTA LEMWN A SBIGOGLYS



Swper hyfryd i'r teulu. Gallwch ddefnyddio llysiau'r tymor i'w addasu.

Amser paratoi: 15 munud

Amser coginio: 15 munud

Digon i 4

***Cynhwysion***

500g pasta ffres e.e. tagliatelle
2 lwy fwrdd olew llysiau
250g dail sbigoglys ifanc, wedi'u golchi
3 ewin garlleg, wedi'u gwasgu
2 frest fawr ffowlyn (tua 500g)
4 llwy fwrdd pesto
Sudd 1 lemwn
Halen
Pupur du wedi'i falu
4 llwy fwrdd crème fraîche (os dymunwch)

***Dull***

Sleisiwch y ffowlyn yn sleisys 1cm o drwch a rhoi halen a phupur drostynt. Cynheswch yr olew mewn padell ffrïo fawr a ffrïo'r ffowlyn am 4-5 munud nes ei fod yn frown ysgafn ac wedi coginio trwyddo.

Coginiwch y pasta mewn dŵr berw am 2-4 munud. Draeniwch, ond cadwch tuag 1 cwpanaid o ddŵr y pasta a rhoi'r pasta nôl yn y sosban.

Ychwanegwch y sbigoglys, y sudd lemwn a'r pesto a'u troi nes bod y dail sbigoglys yn llipa. Ychwanegwch y darnau ffowlyn wedi'u coginio a'r crème fraîche (os ydych yn ei ddefnyddio) a'i droi. Cynheswch trwyddo cyn ei weini.

*Hoffem gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru.*

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# COLOFNYDD Y MIS

## Dafydd Griffiths

Ym mis Mawrth eleni cefais gyfle i ymweld ag Ynys Robben ger Cape Town, De Affrica. Daeth yr ynys yn fwyaf enwog am mai yno y carcharwyd Nelson Rolihlahla Mandela rhwng 1962 a 1990 am herio Apartheid yn ei wlad.

Yn 1959 roedd wedi dod yn garchar i wrthwynebwyr llywodraeth De Affrica a threfn Apartheid. Fel y nodwyd, y mwyaf adnabyddus o'r carcharorion a gadwyd yma oedd Nelson Mandela ond bu arlywydd presennol De Affrica, Jacob Zuma, hefyd yn garcharor ar yr ynys. Ymhlith rhestr o enwau'r 39 carcharor gwleidyddol fu yno gwelais yr enw Griffiths Mxenge. Pwy oedd y dyn yma tybed oedd, fel finnau, yn arddel Griffiths yn ei enw?

Wel, cyfreithiwr hawliau dynol yn Durban oedd o. (Roeddem wedi cael taith o gwmpas y ddinas honno ar Fawrth 20fed a gweld adeiladau Prifysgol KwaZulu Natal, lle'r oedd Griffiths Mxenge wedi graddio yn y gyfraith a ninnau ar y pryd heb wybod am ei fodolaeth). Cafodd ei anfon i Ynys Robben o 1966 tan 1968, oherwydd ei weithgareddau gwleidyddol, ond ar ôl ei ryddhau daliodd i amddiffyn dioddefwyr Apartheid er iddo gael ei erlid, ei gadw yn y ddalfa a'i wahardd yn gyson. Fe'i llofruddiwyd gan Heddlu Cudd Apartheid yn Durban yn 1981 ac yntau'n 46 oed. Parhaodd ei wraig Victoria i weithio i gwmni cyfreithiol ei gŵr a bu'n amlwg fel cyfreithwraig hawliau dynol ond yn 1985 fe'i llofruddiwyd hithau, am iddi hi hefyd herio'r drefn Apartheid.

Rhyddhawyd carcharorion gwleidyddol olaf Ynys Robben yn 1991, ac yn 1996 symudwyd y carcharorion oherwydd troseddau anwleidyddol i garchardai eraill. Mae'r ynys bellach yn gyrchfan i dwristiaid, gyda chyn-garcharorion yn gweithredu fel tywysyddion.


# YSGOLION

## Ysgol Glan Ceubal



Dyma blant Ysgol Glan Ceubal, Heol Colwill, Caerdydd yn croesawu Sali Mali. Daeth plant Cylch Meithrin Ystum Taf i ymuno yn yr hwyl a dathlu eu bod wedi symud i'r adeilad gyferbyn â'r ysgol. Mae'r Cylch Meithrin yn croesawu plant ar fore Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ac yn cynnal Ti a Fi ar fore dydd Iau. (cysyllter â Suzi McLean 07770 437 818 am ragor o wybodaeth)

Mae plant Ysgol Glan Ceubal wedi bod yn brysur yn cystadlu am y tro cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd. Roeddem yn falch iawn o berfformiadau'r holl blant ac yn enwedig Reuben a gafodd lwyfan yn yr Eisteddfod Cylch. Yn ychwanegol, bu aelodau'r Urdd, sy'n mynychu'r Clwb Celf, yn llwyddiannus yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd. Cafodd yr Ysgol 1x1af, 3x2il a 1x3ydd.



Dyma Freya, Nia, Mollie ac Iestyn o Ysgol Glan Ceubal yn casglu eu tystysgrifau yn Noson Wobrwyo Celf a Chrefft yr Urdd yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd. Da iawn chi!

## Ysgol Pencae

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Llongyfarchiadau gwresog i'r Parti Unsain fydd yn cynrychioli'r ysgol yng Nglynllifon yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Llongyfarchiadau hefyd i Magi Hayes am dderbyn yr ail wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gystadleuaeth print du a gwyn.



*Magi yn derbyn ei gwobr*

**Gŵyl Ddawns Caerdydd a'r Fro**

Perfformiodd disgyblion Blwyddyn 5 yn yr Ŵyl arbennig hon yn Theatr Sherman yn ddiweddar. 'O Amgylch y Byd' oedd thema'r ddawns; dyma brofiad cofiadwy iawn iddynt a braf oedd gallu dangos eu sgiliau dawns yn y theatr ar ei newydd wedd.

**Mr Fformiwla**

Daeth Ed Holden, rapiwr enwog Cymru, i'r ysgol i ddatblygu sgiliau llafaredd a rapio disgyblion Blwyddyn 6. Roedd gan y disgyblion wir ddiddordeb yn y sgil anhygoel sydd gan Ed o allu cynhyrchu sain yn ei fodd unigryw ei hun.

**Gymnasteg**

Llwyddodd y tîm gymnasteg i gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth gymnasteg Cymru ac felly byddant yn cynrychioli Cymru yn Stoke ym mis Mai.



*Tîm gymnasteg buddugol yr ysgol*

Llongyfarchiadau hefyd i Alys Haynes a Caitlin Boyle ar gipio'r wobr gyntaf am berfformio fesul pâr yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn Aberystwyth.

Yn ogystal â hyn, cipiodd Caitlin Boyle yr ail wobr yng nghystadleuaeth ddawnsio Eisteddfod Sir yr Urdd. Ardderchog, yn wir!

**Cwis Llyfrau**

Cystadlodd dau dîm o'r ysgol yng nghystadleuaeth y Cwis Llyfrau. Bu'r disgyblion yn ddiwyd yn trafod ynghyd â pherfformio rhannau o'r llyfrau 'Maestro' gan Siân Northey a 'Sam y Capten a'r Siarc Od' gan Siân Lewis. Diolch iddynt oll am eu hymdrechion ynghyd â'u brwdfrydedd tuag at lyfrau!

**Cyngor Ysgol**

Braf oedd croesawu aelodau Cyngor Ysgol y Berllan Deg i'r ysgol er mwyn arddangos yr hyn a gyflawnwyd gan Gyngor yr ysgol hon. Rhannwyd syniadau am y modd y gall y naill gyngor a'r llall gefnogi ei gilydd ar gyfer y dyfodol.

## Ysgol Plasmawr

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

**Pêl-rwyd**

Ddydd Gwener y 23ain o Fawrth, daeth pob ysgol gyfun Gymraeg o Dde Cymru i gystadlu mewn twrnament pêl-rwyd i Flwyddyn 7 yn Ysgol Cwm Rhymni. Bu Tîm A a Thîm B yr ysgol yn gweithio'n galed iawn yn ystod y dydd, roedd yr haul yn tasgu a'r tymheredd yn codi, ond nid oedd hyn yn ddigon i rwystro'r merched rhag cyrraedd y nod.

Llwyddodd Tîm B i fynd drwodd i gystadleuaeth y plât, ond yn anffodus collon ni yn erbyn Cymer. Roedd Tîm A wedi gwneud yn wych gan ennill pob gêm felly roedd siawns da o ennill y cwpan a'r medalau aur. Yn ffantastig, enillon nhw'r gêm derfynol yn erbyn Cwm Rhymni 6-1. Llongyfarchiadau iddynt! *gan Rhian Jones*



*Tîm Pêl-rwyd Buddugol Plasmawr*

**Rygbi**

Bu tîm rygbi Blwyddyn 7 Plasmawr yn fuddugol yn rownd derfynol Cwpan John Nelson gan guro Corpus Christi 17-0. Er i'r gwrthwynebwyr chwarae'n dda, bu Plasmawr yn cydweithio ac yn amddiffyn yn drefnus i rwystro pob ymosodiad. Sgoriodd Gareth Powell gais a Jay Jones ddwywaith a chafodd Deio Hughes un trosiad.

**Marathon Llundain**

Llongyfarchiadau i dri aelod o Flwyddyn 13 ar lwyddo i gwblhau marathon Llundain yn ddiweddar gan godi dros £2,000 at elusen Dolen Cymru. Y tri gŵr dewr oedd Elis Annett, Jams Powys a Gareth Jones.

**Ffair Wyddoniaeth 2012**

Cynhaliwyd Ffair Wyddoniaeth ysgubol eto eleni gyda chyfraniadau deniadol gan dros 160 o ddisgyblion! Llongyfarchiadau yn arbennig i Mahaila Hassan, Megan Holland, Myfi Thomas, Ffibi Devitt-Jones, Harrison Morse, Henry Burns, Catrin Lord, Manon Jenkins, Tirion James-Austin, ac i Gwyn Robins, Liam Coyle a Joe Wiggin am y cyflwyniad buddugol ar Rocedi!

## Ysgol Pwll Coch

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod**

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Owen ar ddod yn gyntaf yn yr Unawd dan 8 ac i Megan Vaughan Evans am ennill y gystadleuaeth Llefaru dan 8.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r Gân Actol ar ennill yn y categori hwnnw. Diolch yn fawr i'r ddwy Anwen, sef Mrs Jones a Mrs Carlisle, am eu holl waith hyfforddi. Diolch hefyd i Mrs Jones Cole am ei chyfeiliant ffantastig a Mr Gareth Jones, Twm a Tomi am fod yn gyfrifol am y gerddoriaeth wych. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yn Eryri.

**Celf a Chrefft**

Cafwyd llwyddiant mawr yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Eisteddfod. Bu Elis ac Ioan Jones Cole yn llwyddiannus gyda'u ffotograffau. Daeth Mari Jones yn gyntaf gyda'i darn o grochenwaith ac enillodd grŵp o blant o Flwyddyn 5 a Blwyddyn 6 gystadleuaeth gwehyddu.

**Dydd Gŵyl Dewi**

Cafwyd diwrnod i'w gofio ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni. Gwisgodd y plant yn eu lliwiau llys a bu cystadlu brwd i ennill y gwpan. Yr Wyddfa oedd yn fuddugol.

Enillydd y brif gystadleuaeth eleni - sef cystadleuaeth y Gadair - oedd Siwan Rhys.



**Ail Baner Werdd**

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi ennill ein hail faner werdd ym mhrosiect Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus. Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn o fonitro'r defnydd a wneir o drydan a cheir a sefydlu partneriaethau â busnesau lleol.

**Llwyddiant y Cwis Llyfrau**

Llongyfarchiadau gwresog i dîm Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 ar ennill cystadleuaeth y Cwis Llyfrau. Byddan nhw'n cynrychioli Caerdydd yn Aberystwyth ym mis Mehefin.

Llongyfarchiadau i Greta Evans ar lwyddo yng nghystadleuaeth Gŵyl Heddwch Caerdydd a'r Fro. Roedd dy farddoniaeth di'n wych Greta!

## Ysgol Y Berllan Deg

**Dathlu'r Gemau Olympaidd drwy Fathemateg**

Yn ddiweddar dathlwyd y Gemau Olympaidd trwy gyfrwng mathemateg diolch i grant gan MathCymru. Bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau yn seiliedig ar wlad arbennig a chafwyd llawer o hwyl yn blasu bwydydd o wahanol wledydd y byd.

**Dyddiadur Dripsyn**



Llongyfarchiadau i Huw Edwards, dosbarth Math, ar ennill cystadleuaeth yn y cylchgrawn CIP i greu cartŵn yn arddull Dyddiadur Dripsyn ac i Seren Davies ac Ioan Lloyd, eto o ddosbarth Math, ar ddod yn gydradd drydydd.

**Helfa Wyau'r Ffrindiau**

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i'r Ffrindiau am drefnu helfa wyau Pasg cyffrous i ddisgyblion yr ysgol.

**Cywion**



Unwaith eto mae gennym gywion bach melyn tlws a phlant y Dosbarthiadau Derbyn wedi gwirioni wrth weld yr wyau yn deor.

**Diwrnod Masnach Deg**

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau hwyliog i hyrwyddo Masnach Deg a chafodd pob disgybl yn yr ysgol siocled Masnach Deg am ddim i fynd adref gyda nhw. Prynwyd y siocledi gan Fosys Bach y Berllan allan o'r elw a wnaethpwyd ganddynt yn yr wythnos fusnes.

**Rygbi**

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi'r ysgol a ddaeth yn ail yn nhwrnamaint rygbi'r sir ac a fydd yn cynrychioli Caerdydd yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Llanelli ar Fai 19eg. Llongyfarchiadau hefyd i Ioan Lloyd a Ryan Spragg, Blwyddyn 6, ar gael eu dewis i ymuno â charfan rygbi ysgolion Dwyrain Cymru.

## Lansio Cylch Ti a Fi y Coed

Cafwyd agoriad llwyddiannus iawn i Gylch Ti a Fi Y Coed yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed fore Llun 23ain Ebrill, gyda 15 o blant a'u rhieni yn bresennol.

Yn sgil gwaith ymchwil gan y Mudiad Meithrin, nodwyd bod diffyg darpariaeth debyg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal. O ganlyniad i hyn, penderfynwyd ei bod yn hen bryd agor Ti a Fi ar gyfer rhieni a gofalwyr Gogledd-ddwyrain y ddinas. Wrth gwrs, mae croeso i bawb - ac roedd criw cymysg o bob cwr o Gaerdydd yn bresennol yn y sesiwn gyntaf.

Rhwng y chwarae, y canu, yr amser stori a'r byrbryd iachus i'r plant – heb anghofio'r cyfle am baned a chlonc i'r oedolion wrth gwrs – cafwyd cryn dipyn o hwyl gan bawb. Un o uchafbwyntiau'r bore oedd ymweliad arbennig gan neb llai na Sali Mali!



*Sali Mali gyda phlant a rhieni'r Cylch*

Mae Cylch Ti a Fi Y Coed yn cael ei gynnal bob bore Llun (tymor ysgol) rhwng 10yb a 11.30yb. Mynediad: £1 i oedolion / 50c fesul plentyn. Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â'r Arweinydd, Lucy Ronchetti, ar 07594 176 750.

Fel ym mhobman, mae dyfodol y Cylch yn ddibynnol ar gefnogaeth y gymuned leol a'r bwriad nesaf yw datblygu Cylch Meithrin i blant 2 – 5 oed i gychwyn ym mis Medi 2012. Os hoffech gofrestru lle ar gyfer eich plentyn neu i fod yn aelod o'r pwyllgor, cysylltwch ag Elaine Evans (Swyddog Datblygu Cynorthwyol Caerdydd) ar 07816 334 202 / elaine.evans@meithrin.co.uk

# Newyddion o'r Eglwysi

## Y Crwys

Cynhaliwyd Gwasanaeth hyfryd o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Glyn Tudwal Jones, pan dderbyniwyd Elin Bowen, Nannon Evans, Ffion Espley, Kristof Gibbon ac Elen Roberts yn gyflawn aelodau o'r Eglwys.



*Y Parchg Jones gydag aelodau cyflawn diweddaraf yr Eglwys*

Ar ôl cyfnod o fod yn ffyddlon iawn yn y gwasanaethau, pleser oedd cael croesawu'n swyddogol William a Nesta Tiplady, eu mab Alun, a'u merch Anna Loh, yn gyflawn aelodau o'r Eglwys. Maent wedi symud o ardal Abertawe ac wedi ymgartrefu yn Radyr.

Bydd tymor llwyddiannus y Gymdeithas, o dan gadeiryddiaeth Mrs. Eleri Bines, yn dirwyn i ben gyda Garddwest ar Fai 12fed yng nghartref Arthur a Diana Evans, Yr Eglwys Newydd, gyda'r elw yn mynd i Gronfa'r Eglwys. Yna, bydd Gwibdaith y Gymdeithas, o dan arweiniad yr Athro John Gwynfor Jones, yn ymweld ag Abaty Cwm-hir a Llandrindod ar Fai 19eg. O dan gadeiryddiaeth Peter Rowlands a Catrin Rowlands yn Ysgrifennydd, mae'r Gymdeithas eisoes wedi dechrau darparu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf.

Mae'r Gymdeithas Ddrama yn brysur iawn yn paratoi tuag at gyflwyno dwy ddrama fer fel rhan o gystadleuaeth y Ddrama Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Pob dymuniad da iddynt.

Cydymdeimlir â theulu'r diweddar Mr. Eirion Lewis, y Mynydd Bychan. Bu Eirion yn flaenor ac yn organydd ffyddlon yn y Crwys am rai blynyddoedd.

Cydymdeimlir â Bryan Jones, Radyr, ar ei brofedigaeth o golli ei frawd yn Rhosllannerchrugog.

Dymuniadau gorau i Siân Dingley a Tomos Dafydd ar achlysur eu priodas yn y Crwys yn ystod mis Ebrill.

Llongyfarchiadau i Siân ac Ian Golden ar enedigaeth Alys Carole, wyres fach gyntaf Tony a Nans Couch.

## Bethel, Rhiwbeina

Rydym fel eglwys yn dymuno'n dda i Trystan, mab Gwenda a Dennis Francis, Rhiwbeina, a Siân Hopkins o Aberpennar a briodwyd yn Salem gan ein Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Roedd y wledd yn y Deml Heddwch.

Cawsom yr anrhydedd o gynnal Synod Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd ym Methel, Ebrill 21ain. Ar ôl bod yn trafod am rai oriau cafodd aelodau'r Synod fwynhau'r wledd oedd wedi ei pharatoi gan yr arlwywraig, Liz Fouladi.

Cydymdeimlir yn fawr ag un o'n haelodau, Mr Gethin Matthews a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

## Capel Ebeneser

**Cwis**

Ar 27 Mawrth bu cystadlu brwd rhwng chwe thîm. Y bwriad oedd codi arian at yr elusen Hosbis George Thomas. Dros saith rownd a phaned a chacen yn y canol, pan gwblhawyd rownd y lluniau, bu crafu pen a sibrwd! Drwy'r cyfan cafwyd llond trol o hwyl ac yn bwysicach fyth codwyd £115 tuag at yr elusen. Diolch i Lyn Jones a Melfyn Hopkins am drefnu ac am fod yn gwis feistri penigamp.

**Nos Iau Cablyd**

Noson i ddathlu a chofio'r hyn a ddigwyddodd yn hanes Iesu oedd y 5ed Ebrill.

Cynhaliwyd noson anffurfiol gydag emynau, darlleniadau, datganiadau offerynnol a bwyd bys a bawd.

**Llongyfarchiadau**

...i Marian Davies oedd yn 80 oed ar 28 Mawrth a Freda Evans ar 2 Ebrill.

...i Mary Lewis yn 80 oed ar 20 Ebrill a'i merch Gwenda yn 50 oed ar 24 Ebrill.

...i Robert a Sally Davies ar ddathlu eu Priodas Aur ar 31 Mawrth.

...i Bethan Mair Lewis a Jonathan Marc Ellis ar achlysur eu priodas yng nghapel Carmel, Conwy ar 14 Ebrill.

**Cydymdeimlad**

Bu farw ein haelod hynaf Pegi Thomas yn 93 oed yng nghartref gofal Romilly, Romilly Road. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i chwaer, Elizabeth sy'n byw yn Radyr.

**Y Mob**

Dros benwythnos y Pasg aeth Clwb Ieuenctid Ebeneser i aros yng Nghanolfan Gristnogol Llanfadog, Penrhyn Gŵyr. Cafwyd andros o hwyl a miri trwy gyfrwng gemau, MOB's got talent a mynd i'r traeth a sesiynau ffydd "Y Darlun Mawr" a Pwy yw Iesu?" Arweiniwyd y gweithgareddau gan Alaw Rowlands, Rachel Jones a John Derek Rees. Hoffem ddiolch i aelodau Ebeneser am eu gweddïau, eu haelioni a'u cefnogaeth.

## Minny Street

**Croesawu teulu**

Hyfrydwch ar fore Sul y Blodau oedd croesawu Dewi a Meinir Hughes (Cyncoed) yn aelodau atom. Llawenydd pellach oedd cael tystio i fedydd eu plant, Leisa Fflur a Dafydd Owen yn yr un oedfa.

**Wedi 7**

Cyfarfod misol o drafod, swpera a chymdeithasu i fyfyrwyr ar aelwyd ein Gweinidog a'i deulu yw Wedi 7 - rhan o ymgais yr eglwys i ddiogelu'r ifanc a gwneud Minny Street yn gartref ysbrydol iddynt. Dyma brofiad Siwan a Rhodri - dau a gafodd fudd arbennig o'r cyfarfodydd hyn ar nos Sul:

'Byddwn ni'n dau'n edrych ymlaen yn arw at ddydd Sul cynta'r mis! Mae Wedi 7 yn gyfle unigryw i drin a thrafod, rhannu barn a phrofiad, ac i anghytuno'n gyfeillgar(!) ar aelwyd groesawgar Owain a Lona. Mae'r trafodaethau ar themâu ac egwyddorion Cristnogol neu rannau

penodol o'r Beibl ymysg ffrindiau wedi bod mor fendithiol, ac wedi ehangu'n syniadau a'n safbwyntiau wrth geisio 'nabod Iesu Grist a hefyd ni'n hunain. Dan arweiniad hwyliog ac addfwyn Owain a Hefin cawsom nosweithiau gwerth chweil...a llond bol o fwyd blasus hefyd! Mae cwmnïaeth Wedi 7 yn ysbrydoliaeth ar ddechrau'r mis i ystyried a gwerthfawrogi'n bywydau, i ddal ati a gwneud ein gorau a pharhau i wenu.'

**Dilyn ôl traed Mary Jones**

Llongyfarchiadau mawr i griw PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) a gerddodd bob cam o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala - taith 28 milltir - dros dridiau adeg y Pasg yng nghwmni ein Gweinidog, Hefin Jones a Dyfrig Parry, gan ddilyn ôl traed Mary Jones a gerddodd yr un llwybr yn 1800 i brynu Beibl gan Thomas Charles. Mae hanes y daith yn llawn, ynghyd â holl newyddion Minny Street, ar wefan yr eglwys: www.minnystreet.org

## Salem, Treganna

**Gwasanaethau'r Pasg**

Cawsom wasanaethau bendithiol dros y Pasg, wrth inni ddod at ein gilydd ar ddydd Gwener y Groglith a Sul y Pasg.

**Adran yr Urdd, Salem**

Perfformiodd aelodau'r adran yn wych yn yr Eisteddfod Sir yn y Barri yn ddiweddar, gan ddod yn ail yng nghystadleuaeth y côr a'r parti canu.

Bydd y parti llefaru yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri fis Mehefin - pob lwc i chi i gyd!

Mae rhaglen lawn wedi ei threfnu ar gyfer yr adran yn ystod y tymor, sy'n cwrdd ar nosweithiau Mawrth yn Salem ar gyfer plant oed cynradd.

**Noson Nawdd y Bobl Ifanc**

Cynhaliodd y bobl ifanc noson nawdd yn festri Salem yn ystod y mis i godi arian tuag at apêl yr enwad at Guatemala. Daeth criw da i'w cefnogi wrth iddynt seiclo yn y festri ar 4 beic ar yr un pryd, pellter a fyddai'n cyfateb i seiclo o un pen o'r wlad i'r llall. Noson hynod o lwyddiannus ac yn llawn hwyl, a llongyfarchiadau ar ymgais arbennig gwreiddiol i wneud rhywbeth ymarferol i helpu pobl Guatemala.

**Clwb Cerdded**

Mae'r clwb cerdded wedi ailddechrau, ac yn cwrdd fore Gwener olaf y mis.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Meinir Phillips a'r teulu wedi iddi golli ei thad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Delyth Jones a'r teulu, sydd wedi colli ei thad.

## Tabernacl

**Oedfa Fedydd**

Ar Sul y Pasg bedyddiwyd dau o'n pobl ifanc, sef Rhian James ac Owen John Thomas. Mae'r ddau ar eu blwyddyn olaf mewn addysg uwchradd, ac yn awyddus i ddangos eu ffydd yng Nghrist a bod yn aelodau o Eglwys Iesu.



*Criw PIMS o flaen cofeb Thomas Charles yn y Bala*

**Y Chwiorydd**

Gwerthfawrogwyd prynhawn hwyliog yng nghwmni Llinos Metcalf yn sôn am Pavarotti yn Petra. Prynhawn difyr arall oedd cael cwmni Marc Jon yn dysgu darnau i'r chwiorydd o sioe gerdd o waith Verina Matthews. Ei obaith fydd dod â'r oll ynghyd yn ystod yr haf mewn cyflwyniad cynhwysfawr. Yn y cyfarfod nesaf, dangosodd Delyth Davies sleidiau ar waith y Senana a soniodd Gilian Davies, Llanelli am ei phrofiad yn Thailand. Rhys Jones o Eglwys Dewi Sant ddaeth â'r tymor i ben - bu'n sôn am ei waith, ei fywyd personol ac yna gorffen drwy nodi ei hoff lefydd yng Nghymru.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd nifer o nosweithiau hyfryd gan y Gymdeithas dros y mis diwethaf. Mwynhawyd cyngerdd gan Gôr Cwm Ni, sef criw ifanc o gyfeiriad Caerffili ac Ystrad Mynach. Cafwyd noson hwyliog hefyd yng nghwmni Cen Williams yn dangos enghreifftiau o'i gartwnau. Roedd yr eglurhad am y cartwnau hyn yn ddifyr iawn.

Trefnwyd cyngerdd arbennig ddiwedd mis Mawrth i wrando ar dri chôr, sef Côr Cymreig Melbourne, Awstralia, Côr Merched Canna a Chôr Meibion Taf. Unawdydd y noson oedd Justine Viani, soprano y byddwn yn sicr o glywed llawer mwy amdani.

**Organathon**

Cynhaliwyd dwy organathon yn ystod mis Mawrth, ar ddyddiau gemau Cymru yn erbyn yr Eidal a Ffrainc. Diolch i'r organyddion am eu menter ac i'r casglwyr am eu hymdrechion ar yr Ais. Mae'n braf nodi bod cyfanswm y blychau yn agos i fil o bunnoedd.


*Noson yng nghwmni*

**JIM PARC NEST**

*- yr Archdderwydd a*

**MANON RHYS**

*- enillydd y Fedal Ryddiaith ddwywaith*

**Nos Wener, 1 Mehefin am 7.30yh**
**yn y Tŷ Crwn, Sain Hilari**

Gwybodaeth ar gael gan
Gwyn 01446 760 608 neu
eirlysagwyn@btinternet.com

# Eglwys Dewi Sant

### Yr Wythnos Fawr a'r Pasg

Cadwyd y tymor sanctaidd hwn gyda gwasanaeth trawiadol bob dydd. Dydd Llun a dydd Mercher cafwyd y Cymun Bendigaid, dydd Mawrth myfyriwyd ar orsafoedd y Groes yn y gwasanaeth cymun. Nos Iau Cablyd cafwyd gwasanaeth dwys ei naws sef y cymun gyda defodau golchi traed, diosg yr allor a gwylnos.

Dydd Gwener y Groglith 'roedd yr eglwys yn llawn ar gyfer gwasanaeth Myfyrdod y Groes o dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Llywyddwyd gan y Ficer Dyfrig Lloyd a chafwyd dwy anthem hyfryd gan y côr Populus Meus (Victorie) a Kyrie Eleision (Byrd).

Noswyl y Pasg cafwyd Gwasanaeth y Goleuni a'r Cymun Bendigaid. Wedi cynnau tân y Pasg y tu allan gorymdeithiwyd i mewn i eglwys dywyll. Hanner ffordd trwy'r gwasanaeth cynnwyd y golau i ddathlu llawenydd y Pasg.

Ar ddydd y Pasg cafwyd gwasanaeth o'r cymun gyda'r côr yn canu'r anthem Mae'r ymdrech drosodd (Henry G Ley). Penllanw effeithiol i'r Wythnos Fawr. Roedd yr eglwys yn edrych ar ei gorau wedi ei haddurno gan aelodau Cylch Dewi.

### Cymdeithas Nos Iau

Diwedd Ebrill cafwyd noson gwbl unigryw a gwahanol pan ddaeth criw da at ei gilydd i flasu gwin.'Roedd yn noson ddiddorol a hwyliog a phawb wedi mwynhau'r profiad.

### Festri'r Pasg

Ar ôl gwasanaeth bore Sul Ebrill 29ain cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol gyda'r Ficer yn cadeirio.

Etholwyd Rhys Jones yn warden y ficer a Delyth Davies yn warden y bobl am y flwyddyn.

### Organ Eglwys Dewi Sant Caerdydd

Mae 2012 yn flwyddyn arbennig iawn i Eglwys Dewi Sant. Rydym yn dathlu pen blwydd yr organ yn 125 oed. Fe'i hadeiladwyd yn 1887 gan y "Tad" Henry Willis, un o adeiladwyr enwocaf Gwledydd Prydain. Ef fu'n gyfrifol am gynllunio ac adeiladu organau nifer o eglwysi cadeiriol, organ Neuadd Albert yn Llundain heb anghofio nifer fawr o eglwysi llai a llu o neuaddau mewn trefi a dinasoedd.

Mae organ Eglwys Dewi Sant yn cael ei hystyried yn un o'r goreuon yn ne Cymru ac mae'n un o'r ychydig offerynnau o waith Willis na chawsant eu newid na'u haddasu dros y blynyddoedd. Mae ei nodweddion gwreiddiol a'i sain ardderchog yn golygu ei bod yn enghraifft nodedig o'i waith ac mae nifer o organyddion enwog wedi ei chwarae dros y blynyddoedd.

Rydym felly yn awyddus i roi cyfle i gymaint â phosib fwynhau seiniau godidog yr organ hon a threfnwyd cyfres o ddatganiadau gan organyddion enwog o fis Ebrill hyd fis Hydref. Ymhlith y rhain fydd cyflwyniad gan Huw Tregelles Williams 'Er Clod i'r Tad Willis' am 6.45 nos Sadwrn 23 Mehefin gyda datganiad i ddilyn.

John Scott, Cyfarwyddwr Cerdd Eglwys Sant Thomas, Fifth Avenue, Efrog Newydd ond a fu'n Gyfarwyddwr Cerdd Cadeirlan Sant Paul, Llundain fydd y datgeinydd yn y prif ddatganiad dathlu, sydd i'w gynnal nos Sadwrn 21 Gorffennaf am 7.30.

Cynhelir gwasanaethau o ddathlu a diolch ddydd Sul 8 Gorffennaf. Y pregethwr gwadd yn y gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 10.30 y bore fydd yr Hybarch Randolph Thomas, Archddiacon Aberhonddu. Bydd gwasanaeth o'r Hwyrol Weddi Gorawl am 6.00.

Os am wybodaeth bellach mae croeso i chi gysylltu ag Ieuan Jones, Cyfarwyddwr Cerdd ar 074 29 012781 neu ieuanjones@hotmail.co.uk.



# Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Cathays

### Gwyliau'r Capel


Yn ystod gwyliau'r Pasg eto eleni fe heidiodd criw sylweddol o'r Eglwys Efengylaidd i dref Penfro am wyliau gyda'i gilydd. O'r 19eg hyd at yr 21ain o Ebrill buom yn aros yng nghanolfan Gristnogol Haven, sydd ond tafliad carreg o Gastell Penfro. Roedd yn hyfryd cael treulio amser yng nghwmni ein gilydd, a chael astudio'r Beibl a gweddïo – yn ogystal â cheisio ateb ambell gwis. Braf hefyd oedd gweld y genhedlaeth nesaf o blant y capel yn mwynhau rhedeg o amgylch y ganolfan ac yn chwarae gemau. A gwnaeth ambell un ohonynt fentro i'r pyllau bach ar draeth Angle hyd yn oed. Peth da i'r bobl hŷn fod Penfro yn cynnig detholiad da o siopau coffi roedd modd dianc iddynt o bryd i'w gilydd! Rwy'n credu y gallwn ddweud â sicrwydd fod pawb yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod.

### Trydar

Datblygiad newydd yw ein bod wedi ymuno â'r rhwydwaith cymdeithasol Trydar *(Twitter)*. Y gobaith yw y bydd hyn yn fodd i ni nid yn unig godi ymwybyddiaeth o'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau eraill sy'n yn cael eu trefnu gennym, ond hefyd yn rhoi cyfle i eraill ymateb i'r hyn sydd yn cael ei ddweud. Os hoffech ein dilyn, enw'r cyfri yw @cwmpawd_org.

Fel rhan o'r un gwaith rydym yn y broses o ddiweddaru ein gwefan: ewch at www.cwmpawd.org i weld.

## DINESAIR Rhif 122



### Ar Draws

1. Gall Dagon ddrysu'r lle yma (8)
6. Mae traeth a tho yn ddi-fai (4)
8. Pentost i galon Helen yw lliw tywyll y bocs (6)
9. Ers i iâ droi yn dân (6)
10. Pert yr ôd i Eirlys (4, 2, 4)
12. Cantorion cangen (6)
14. Aderyn yn ffenestr y siop (6)
15. Seithug cynhyrfu'r selog yn cynnwys un pen sy'n credu yn y direswm (10)
19. Ych crin yn dangos arwyddion o henaint (6)
20. Gwn nad aur sy'n creu rhannau (6)
21. Uno a mynd heibio heb fod yn dawel (4)
22. 'Ond mae 'nghalon yn y mynydd ------ ------- a'r adar mân' (J.G.H) (3'1,4)

### I Lawr

2. Cael stêm o argae bro ar yn ail (4)
3. 'Er nad yw 'nghnawd ond ------ A'm hesgyrn ddim ond clai' (W.J.)
4. Aderyn gwerthfawr sanctaidd (7)
5. Edrych ar y glwth (5)
6. Och! Sgert wedi rhwygo mewn gwrhydri (7)
7. 'O! F'enaid gwêl --------- Y person rhyfedd hwn' (A.G.) (8)
11. Tyrfa bron o sêr yn gwibio ger Abertawe (8)
13. Dyn ac anifail yn cymryd peth diod ac yn digio (7)
14. Ymid i dir Leo gwyllt (7)
16. 'Ei throed heb bwyth o'r ede' Hynny yw dim, ------ ----' (4, 1)
17. Mae'n ddisglair mewn amser o ganu (5)
18. 'Ond 'does yma neb yn ----- Namyn amser swrth a'r hin' (W.C.W.) (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Mehefin.

**Enillydd Croesair Rhif 120 -**
**Gwenda Hopkins, Llanisien**

**Atebion Rhif 120**
**Ar Draws** – 1. Ystranc; 5. Cael; 7. Daeth awr i fynd; 9. Wyna; 10. Rhodianna; 12. Iyrchod; 13. Campwr; 16. Areithior; 18. Llety; 20. Canolbwyntio; 21. Llaca; 22. Dewiswr.
**I Lawr** – 1. Yn dy waith ar; 2. Trefnwr; 3. Afal; 4. Cernod; 5. Cyfrinach; 6. Ennyn; 8. Mawrth yn oer; 11. Porth mona; 14. Prentis; 15. Gwybed; 17. Ehanga; 19. Sylw.

# Cymrodorion Caerdydd



Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Cymrodorion am y tymor 2011/12 nos Wener 30 Mawrth yn festri'r Tabernacl, yr Ais. Y siaradwr gwadd oedd Ieuan Wyn Jones, A.C. Teitl ei gyflwyniad oedd, 'Cymru yn symud ymlaen wedi'r Refferendwm'. Rhoddodd ddadansoddiad cryno o esblygiad cyfansoddiadol Cymru o Ymgyrch Senedd i Gymru hyd yn awr, ac yna canolbwyntiodd ar y camau cyfansoddiadol posibl nesaf. Yn ei farn ef y diffyg amlycaf yn y drefn fel y mae hi ar hyn o bryd yw diffyg atebolrwydd cyllidol. Nododd mai un o egwyddorion sylfaenol democratiaeth yw y dylai'r awdurdod sy'n gyfrifol am wariant cyhoeddus hefyd fod yn gyfrifol am godi'r cyllid. Yn achos y Cynulliad Cenedlaethol, mae ganddo bwerau gwario ond dim pwerau trethu. Yn sicr, bydd hyn yn fater y bydd llawer o drafod arno yn y cyfnod nesaf o esblygiad cyfansoddiadol.

Dilynwyd yr anerchiad gan drafodaeth fywiog ar lu o bynciau megis ffederaliaeth a gwir ystyr 'annibyniaeth'. Llywyddwyd gan Havard Gregory, a diolchwyd gan R. Alun Evans.

## Croeso

Mae Alun a Gaynor Morgan newydd symud i fyw o Rydaman i rif 14, Ffordd Glasgoed/ Greenwood Road, Llandaf. Mae Alun newydd ymddeol ar ôl gwasanaethu fel un o Arolygwyr ei Mawrhydi am bron i 30 mlynedd a Gaynor hithau fel Pennaeth Cyfadran yng Ngholeg Sir Gâr. Mae eu dwy ferch, Siân a Heledd, yn byw yng Nghaerdydd: mae Siân yn cyflwyno ar raglen 'Y Byd ar Bedwar' a Heledd yn gweithio i gyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae Gareth y mab yn Olygydd Newyddion gyda'r Irish Independent ac mae'n briod â Lucy sy'n Wyddeles. Bydd yn haws nawr i dad-cu a mam-gu deithio o Gaerdydd i Ddulyn i weld Dylan, yr ŵyr bach chwe mis oed.

# Calendr y Dinesydd • Mai-Gorffennaf

**Iau, 10 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Cymorth Cristnogol o dan ofal Mari Fflur Williams, yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Sadwrn, 12 Mai**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies am 11.00am ar y testun, 'Yr Eisteddfod a'r Beirdd Ifainc'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 12 Mai**
Cyfeillion Carnhuanawc. Gwibdaith i drefi Caerfyrddin a Chydweli dan arweiniad Peter Hughes Griffiths. Yn cychwyn o 47 Wingfield Rd, yr Eglwys Newydd am 9.00am a chyrraedd maes parcio Neuadd y Sir, Caerfyrddin erbyn 11.00am. Cinio yng Nghaban y Dderwen cyn symud ymlaen i Gydweli yn y prynhawn ac yn ôl yng Nghaerdydd erbyn tua 5.00pm. Manylion pellach: Nans Couch (029-2075-3625; nans.couch@talk21.com) neu Catherine Jobbins (029-2062-3275; cath.jobbins@btinternet.com).

**Llun, 14 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr gwadd: Bob Puw. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 16 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweld â Chrochendy Ewenni.

**Gwener, 18 Mai**
Datganiad Organ gan Carleton Etherington, Abaty Tewkesbury, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 1.15pm.

**Gwener, 18 Mai**
Cowbois Rhos Botwnnog a Huw M yng Nghlwb y Diwc, y 'Duke of Clarence', Treganna, am 8.00pm. Tocynnau: £8 o siop Caban.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd gan Barti'r Efail, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Gerallt Hughes (Enillydd Cystadleuaeth Erthygl Wyddonol Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011) ar y testun 'Robotiaid ar Draed'. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 30 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cyfarfod Blynyddol ac adloniant, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 1 Mehefin**
Golff yng Nghlwb Gwawr Llygaid y Dydd am 8.00pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Sadwrn, 9 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Cyfle i ymarfer siarad Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 12 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Rhys Iorwerth, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011, yn trafod ei gerdd arobryn, 'Clawdd Terfyn', yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mercher, 13 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Llun ar wal fy nghartref', gan aelodau'r Aelwyd, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 14 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Moeseg mewn Meddygaeth'. Sgwrs gan Dr Dai Lloyd, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30pm.

**Sadwrn, 16 Mehefin**
Cymdeithas y Beibl: Bore coffi yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, o 10.00 tan 12.00 o'r gloch.

**Llun, 18 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Y Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni'r awdur Rhys Evans, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Gwener, 22 Mehefin – Gwener, 29 Mehefin**
TAFWYL

**Gwener, 22 Mehefin**
Digwyddiad cyntaf Tafwyl 2012. Huw Chiswell a Gildas yng Nghlwb y Diwc, y 'Duke of Clarence', Treganna, am 8.00pm. Tocynnau: £10 o siop Caban.

**Sadwrn, 23 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Tŷ Hafan.

**Sadwrn 23 Mehefin**
Cyflwyniad 'Er Clod i'r "Tad" Willis' a Datganiad Organ gan Huw Tregelles Williams, gyda lluniaeth i ddilyn, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 6.45 pm. Pris mynediad: £10.

**Mercher, 27 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Flynyddol.

**Sul, 8 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts; Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00pm.

**Gwener, 13 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn perfformio'r ddrama gerdd, 'Sneb yn Becso Dam, yn seiliedig ar record hir Edward H. Dafis, yn Sherman Cymru am 2.00pm a 7.30pm. Manylion pellach: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Noson ola'r tymor yng Nghlwb Gwawr Caerdydd i lawr yn yr Ŵyl Fwyd ym Mae Caerdydd am 8.00pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## Merched y Wawr Caerdydd

Un o aelodau ein cangen, Dr Rosina Davies, oedd ein siaradwraig wadd ym mis Ebrill. Soniodd am Dr William Price, y cymeriad lliwgar ac unigryw hwnnw a hanai o blwy Rhydri ac a fu'n byw yn ardal Pontypridd a Llantrisant nes ei farw yn 93 oed. Roedd yn feddyg galluog gyda syniadau o flaen ei oes am hylendid a thriniaethau naturiol. Credai mewn amlosgi cyrff marw ac ymgyrchodd drwy'r llysoedd i sefydlu amlosgfeydd. Amlosgfa Pontypridd oedd y gyntaf i'w hagor yng Nghymru.

Yn ogystal â bod yn feddyg adnabyddus, ymddiddorai mewn Derwyddiaeth gan gynnal seremonïau yn yr ardal yn ei wisg goch laes. Gwisgai'n lliwgar iawn a chroen llwynog am ei ben fel yn y lluniau cyfarwydd ohono. Dyna oedd ei wisg bob dydd pan nad oedd yn cerdded o gwmpas yn noeth - rhywbeth herfeiddiol iawn heddiw heb sôn am yn ei gyfnod ef! I gloi noson ddiddorol iawn buom yn cyd-ganu hen faled ffair am William Price.

# Creu argraff yn Nantes

Am 4 o'r gloch y bore ddydd Gwener 6ed Ebrill, daeth grŵp o 25 o blant at ei gilydd yng nghwmni eu rhieni a'u hyfforddwyr i gychwyn ar eu taith rygbi gyntaf. Roedd carfan dan 9 a dan 11 Clwb Rygbi Cymry Caerdydd wedi derbyn yr her o gynrychioli Caerdydd a Chymru yng nghystadleuaeth 53 ème Challenge Michel Lecointre yn Nantes, sef gefeilldref Caerdydd.

Doedd neb yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond roedd pawb yn sicr o ddau beth – doedd neb yn mynd i anghofio'r daith, a byddai pawb yn Nantes yn gwybod bod Cymry Caerdydd wedi bod yno. Ategwyd y canu ar y bws gan gyfarchion ar DVD gan lu o fawrion Cymru, yn cynnwys Gwyn Jones, Jamie Roberts, Lloyd Williams, Robert Croft, Hywel Gwynfryn a Rhodri Morgan. Roedd yr hyder yn cynyddu.

Ar fore'r gystadleuaeth, roedd llygaid pawb ar y Cymry, wrth i'r Ffrancwyr geisio dial am Gamp Lawn eleni.

Tîm dan 11 ddechreuodd y gystadleuaeth, ond yn anffodus colli'r gêm gyntaf o 1 cais i ddim oedd eu hanes yn y diwedd. Cafwyd buddugoliaeth yn erbyn y ddau wrthwynebydd nesaf ond, yn anffodus, nid oedd yn ddigon i gyrraedd y rowndiau terfynol. Cafwyd un perfformiad disglair arall, wrth i'r tîm orffen yn 13eg allan o 24.



*Yr holl chwaraewyr, yr hyfforddwyr a'r cwpan*

Dechreuodd y Tîm dan 9 gan chwarae rygbi anhygoel ac roeddent heb golli ar ôl 3 gêm. Erbyn hyn, roedd pawb yn gwybod mai nhw oedd y tîm i'w drechu. Cyraeddasant y rownd gogynderfynol yn gyfforddus, ond yn anffodus, yn dilyn cais dadleuol, colli oedd eu hanes. Roedd angen iddynt ddal ati, a dyna wnaethon nhw gan orffen y gystadleuaeth yn 7fed allan o 24.

Ond nid dyma ddiwedd y stori wrth i dlws y Llywydd gael ei gyflwyno i'r Clwb am y tîm wnaeth gyfrannu fwyaf at y gystadleuaeth. Gwobr haeddiannol i bawb a gyfrannodd gymaint at y daith.

Uchafbwynt y daith adref oedd y cyngerdd a ysgogwyd gan y plant ar y fferi yng ngwir draddodiad y Cymry a byd rygbi!

**Aled Evans**

*Cadeirydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (Iau)*




**Mae ND Addysg yn recriwtio!**

**Mae ND Addysg** yn cofrestru Athrawon Newydd Gymhwyso ar gyfer Tymor yr Haf a Medi 2012

Yn ddiweddar fe enillom **"Chytundeb Ledled Cymru"** gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu athrawon cyflenwi drwy Gymru gyfan.

Ni yw'r **unig** asiantaeth addysg i ennill y cytundeb hwn.

**Trwy gofrestru gydag ND Addysg byddwch yn derbyn:**

Cymorth asiantaeth addysg fwyaf flaenllaw Cymru

Cyfraddau talu dyddiol gwych

Cyfle i weithio o fewn awdurdodau addysg leol o'ch dewis

Gwaith rheolaidd, hir dymor a dydd i ddydd

Tîm wedi ei neilltuo i addysg yn y Gymraeg

Mae ND Addysg hefyd yn recriwtio ar gyfer cynorthwywyr dysgu a staff cymorth.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Dafydd ar **02920827588** neu **Dafydd.Henry@new-directions.co.uk**

www.ndteach.co.uk Addysg@new-directions.co.uk www.facebook.com/ndteach

Supply Teachers ASCL Association of School and College Leaders NAHT The Association for All School Leaders

Welsh Singers Competition
Cystadleuaeth i Gantorion Cymreig

**Rownd Derfynol**
**Dydd Llun 11 Mehefin 2012**
**7.25yh**
**Neuadd Dewi Sant, Caerdydd**

**Dewch i glywed y perfformiad sy'n penderfynu pwy fydd yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2013!**

**Rhian Lois Evans (soprano)**
**Fflur Wyn (soprano)**
**Sioned Gwen Davies (mezzo-soprano)**
**Gary Griffiths (bariton)**

**gyda**
**Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**
**Arweinydd: Grant Llewellyn**

*Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant: 02920 878444*
*www.stdavidshallcardiff.co.uk*

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 90 mlwydd oed ac ers 1922 mae'r neges wedi bod yn ysgogiad ac yn ysbrydoliaeth i weithgarwch dyngarol a rhyngwladol yr Urdd. Anfonwyd y neges gyntaf gan y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni. Roedd yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw yn y broses o sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd a phenderfynodd Syr Ifan y dylai'r Urdd ymuno â'r fenter o gyhoeddi'r neges er mwyn dileu'r anwybodaeth a'r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd. Roedd y neges gyntaf, a anfonwyd mewn 'Morse code', yn gweddïo ar i Dduw fendithio ymdrechion a gwaith dynion da dros y byd a dod â rhyfela i ben. Cafwyd un ymateb gan warchodwr Tŵr Eiffel ym Mharis! Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service yn 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn ymddangos mewn 15 iaith ar y we ac yn cyrraedd pedwar ban byd ac mae pob un o'r ieithoedd hynny yn y pecyn hwn.

Yn y 50au rhoddwyd sêl bendith a chyfrifoldeb i'r Urdd dros gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar Ddydd Ewyllys Da -18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

## Gan ieuenctid Cymru i ieuenctid y byd...

### Citius. Altius. Fortius.

### Yn gyflymach. Yn uwch. Yn gryfach.

Gredwch chi mai bwriad yr Olympiaid cyntaf oedd paratoi dynion ifainc ar gyfer rhyfeloedd? Gyda gweledigaeth dreisgar, edrychwch sut y gall y daliadau cynnar gael eu camddehongli a throi pobl yn arfau yn erbyn ei gilydd.

Er bod rhyfeloedd yn parhau i'n rhwygo, mae'r Olympiaid yn gyfle prin i sbarduno fflam undod rhyngwladol. Ystyriwch dri o ddaliadau'r Olympiaid erbyn heddiw; chwarae teg, gwaith caled a pheidio twyllo. Ychwanegwch y gymdeithas o gannoedd o ddiwylliannau amrywiol, ac wele'r Olympiaid yn rhoi cartref i heddwch. Mae pawb yn sefyll ar y llinell gychwyn gyda'i gilydd; i ddathlu dawn ac i anghofio'n gwahaniaethau.

### Citius. Altius. Fortius

Bobl ifainc y byd; mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r geiriau hyn yng nghyd-destun heddwch. Down i benderfyniadau teg, cyflawnwn fwy nag erioed, byddwn yn uned gyda'n gilydd.

Cyhoeddwn Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn gyflymach, yn uwch ac yn gryfach nag erioed o'r blaen gan rannu grym ei fflam i bedwar ban byd.



*Lluniwyd gan*
*Fforwm Ieuenctid Eryri*

LIVE MUSIC NOW
**Inspiring Musicians • Transforming Lives**
**Ysbrydoli Cerddorion • Trawsnewid Bywydau**

# All canwr Cymreig ennill coron Caerdydd yn 2013?

## Dewch i wrando, a phenderfynu!

Mae cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd yn un o uchafbwyntiau calendr cerddorol y byd, ond a ydych chi erioed wedi meddwl sut mae cynrychiolydd Cymru yn cael ei ddewis? Wedi'i threfnu gan Live Music Now Cymru Wales mewn cysylltiad â BBC Cymru a chyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, **Cystadleuaeth i Gantorion Cymreig** yw'r unig ffordd i gantorion rhwng 18-32 mlwydd oed o Gymru gystadlu yng nghystadleuaeth ddwyflynyddol BBC Canwr y Byd Caerdydd. **Cynhelir rownd derfynol y Gystadleuaeth i Gantorion Cymreig yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ddydd Llun 11 Mehefin 2012 am 7.30pm. Bydd tocynnau ar gyfer y cyngerdd yn mynd ar werth ddydd Iau 1 Mawrth.**

Mae'r **Gystadleuaeth i Gantorion Cymreig** wedi'i hanelu at gantorion ar ddechrau eu gyrfa broffesiynol ac eleni y pedwar cystadleuydd sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yw **Rhian Lois** o Bont-rhyd-y-groes (soprano), **Fflur Wyn** o Gaerfyrddin (soprano), **Sioned Gwyn Davies** o Fae Colwyn (mezzo-soprano) a **Garry Griffiths** o Benbre (bariton). Y beirniaid fydd Rebecca Evans, Della Jones, Donald Maxwell a John McMurray dan arweiniad Julian Smith. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £2000 a thlws gan Welsh Royal Crystal, a bydd y tri arall yn derbyn gwobr o £750 yr un.

Gellir gwneud cais am docynnau i **Gystadleuaeth i Gantorion Cymreig** ddydd Llun 11 Mehefin drwy naill ai gysylltu â Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant ar 029 2087 8444 neu lawrlwytho ffurflenni o www.cystadleuaethigantorioncymreig.com neu drwy fynd i wefan Neuadd Dewi Sant www.stdavidshallcardiff.co.uk